

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Naomi Stocks
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Mawrth 0300 200 6565
2026 SeneddPlant@senedd.cymru
Amser: 09.30

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

09.15 – 09.30

Cyfarfod cyhoeddus

09.30 – 11.30

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2024 – 2025

09.30 – 11.30

(Tudalennau 1 – 31)

Owen Evans, Prif Arolygydd ei Fawrhydi, Estyn

Claire Morgan, Cyfarwyddwyr strategol, Estyn

Jassa Scott, Cyfarwyddwyr strategol, Estyn

Liz Miles, Cyfarwyddwyr cynorthwyol, Estyn

[Adroddiad Blynyddol – Estyn](#)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil (Saesneg yn unig)



3 Papurau i'w nodi

11.30

3.1 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 32 – 67)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Bennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

3.2 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 68 – 69)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (Saesneg yn unig)

3.3 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 70 – 80)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

3.4 Blaenraglen Waith

(Tudalen 81)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Panel Arbenigol Llythrennedd (Saesneg yn unig)

3.5 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(Tudalennau 82 – 86)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 4 Chwefror

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.30

Egwyl

11.30 – 11.40

5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2024 – 2025 – trafod y dystiolaeth

11.40 – 11.55

6 Trafod adroddiad gwaddol y Pwyllgor

11.55 – 12.30

(Tudalennau 87 – 108)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac

Addysg

Senedd Cymru

Drwy e-bost yn unig

Gwener 27 Chwefror 2026

Annwyl Gadeirydd,

Testun: Adroddiadau Effaith Cymru ac Adroddiad Etifeddiaeth

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw rheoleiddiwr cydraddoldeb a hawliau dynol Prydain Fawr a Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws 'A' ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ar gyfer materion a gedwir yn ôl yn yr Alban. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y Chweched Senedd ac roeddem yn meddwl y byddem yn cefnogi eich adrodd etifeddiaeth trwy eich cysylltu â'n Hadroddiadau Effaith Cymru.

[Adroddiad Effaith Cymru 2024 i 2025](#)

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com

Tudalen y pecyn 32



[Adroddiad Effaith Cymru 2023 i 2024](#)

[Adroddiad Effaith Cymru 2022 i 2023](#)

[Adroddiad Effaith Cymru 2020 i 2021](#)

Mae rhai enghreifftiau, sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor, yn ein Hadroddiadau Effaith yn cynnwys:

- Roedd ein [tystiolaeth ac argymhellion](#) i'r Pwyllgor wedi'u hadlewyrchu'n gryf yn eich hadroddiad ac ymchwiliad ar fynediad at addysg i blant anabl a gweithredu diwygiadau. Sicrhaodd ein cyngor i'r Pwyllgor ymlaen llaw fod yr ymchwiliad yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) fel fframwaith gyfeirio.
- Roedd adroddiad ymgynghoriad y Pwyllgor ar aflonyddu rhywiol gan gyfoedion mewn ysgolion yn adlewyrchu ein dystiolaeth a'n hargymhellion. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i ddiweddarau canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar gasglu a dadansoddi data.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com



Monitro cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol

Mae ein [Traciwr Hawliau Dynol](#) yn offeryn ar-lein sy'n monitro pa mor effeithiol y mae llywodraethau Cymru a'r DU yn cyflawni eu rhwymedigaethau hawliau dynol. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys mwy na 70 o asesiadau o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. Credwn fod y sylfaen dystiolaeth hon yn adnodd gwerthfawr ar gyfer llywio adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor, gan ddarparu darlun cyfredol o gyflwr hawliau dynol yng Nghymru ar draws ystod eang o feysydd thematig.

Mae ein briff, [Monitro cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol](#), yn darparu'r cefndir a'r wybodaeth ynghylch prosesau monitro. Mae'r briff hwn yn cyflwyno'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â chytuniadau rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig a fydd yn ddefnyddiol i Bwyllgorau yn y dyfodol.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com



Gwybodaeth Ychwanegol: Briff - Cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r briff hwn yn rhoi cipolwg cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar y materion cydraddoldeb a hawliau dynol mwyaf dybryd yng Nghymru, wedi'i gymryd o'n hadroddiad cyflwr y genedl [A yw Cymru'n Decach? 2023](#). Mae hyn yn tynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y Chweched Senedd, yn ogystal â'r materion cydraddoldeb a hawliau dynol y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn ystod y Senedd nesaf.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eich gwaith yn ystod y Chweched Senedd. Os oes unrhyw beth yr hoffech i ni ei egluro, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, rhowch wybod i ni.

Yn gywir,

Ruth Coombs

Pennaeth Cymru

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Ffôn uniongyrchol: 029 2044 7710

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com

Tudalen y pecyn 36

Papur briffio

Cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Awst 2025

EHRC Cymru

Cynnwys

Rhagair.....	2
Ynghylch y papur briffio hwn	3
Trawsbynciol/fframwaith	5
Addysg.....	7
Gwaith	10
Safonau byw	14
Iechyd a gofal cymdeithasol.....	17
Cyfiawnder a diogelwch personol.....	20
Cyfranogiad	24
Casgliadau	27
Cysylltiadau	29
Gwasanaeth Cynggori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS).....	29

Rhagair

Pwy ydym ni

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r rheoleiddiwr cydraddoldeb ar gyfer Prydain Fawr a'r Sefydliad Cenedlaethol Hawliau Dynol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ar gyfer materion a gedwir yn ôl yn yr Alban. Mae gennym fandad statudol i gynghori Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn gosod dyletswyddau ar y Comisiwn i roi cyngor i lywodraethau ar ddeddfiadau cydraddoldeb a hawliau dynol.¹ Dysgwch fwy am waith y Comisiwn ar ein [gwefan](#).

Fel Sefydliad Cenedlaethol Hawliau Dynol (NHRI) statws A, cawn ein hasesu yn erbyn [Egwyddorion Paris](#). Ail-achredwyd y Comisiwn ddiwethaf fel NHRI statws A ym mis Mai 2024.

¹ [Deddf Cydraddoldeb 2006](#), adran 11 [cyrchwyd 22 Tachwedd 2024]

Ynghylch y papur briffio hwn

Diben

Mae'r briff hwn yn rhoi cipolwg cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar y materion cydraddoldeb a hawliau dynol mwyaf dybryd yng Nghymru heddiw. Bydd yn helpu darpar ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol i ddeall yr heriau sydd o'u blaenau wrth iddynt baratoi eu hunain ar gyfer yr etholiad a thymor newydd y Senedd, a datblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer 2026 a thu hwnt.

Mae'n rhoi crynodeb o rai agweddau allweddol ar ein Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? 2023, a nodir ym meysydd allweddol bywyd. Mae'r trosolwg hwn yn defnyddio data i fesur cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bwriedir iddo gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ein nod yw ysgogi gweithredu a newid ystyrlon, er mwyn gwneud bywyd yn decach i bawb.

Y dull a gymerwyd

Mae'r dystiolaeth ar gyfer y briff hwn wedi'i chymryd o'n Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? 2023. Lle nad oes tystiolaeth benodol Gymreig ar gael, er enghraifft lle mae data ar goll neu nad yw wedi'i ddadgrynhoi'n ddigonol, rydym wedi defnyddio tystiolaeth berthnasol o'n hadroddiad Prydain Fawr "Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023".

Y Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023 yw ein hadolygiad o gyflwr y genedl ar gyfer Prydain. Mae sut rydym yn asesu cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'i nodi yn ein [Fframwaith Mesur](#). Mae hyn yn egluro sut y gwnaethom archwilio gwahanol ardaloedd o fywyd, yr ydym yn eu galw'n feysydd. Mae'r briff hwn yn crynhoi ein canfyddiadau ar gyfer y meysydd allweddol o ddiddordeb i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cyn y Senedd nesaf.

Gallwch ddarllen dadansoddiad manwl pellach yn y [Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach?](#) a'r [Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023](#).

Trawsdorri/fframwaith

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn adrodd ar ganfyddiadau cyffredinol pwysig ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â nodwedd gwarchodedig penodol a/neu faes.² Mae bylchau data a thystiolaeth yng Nghymru yn cyfyngu ar ein gallu i gynnal asesiad cynhwysfawr o gynnydd cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae bylchau data yn bodoli ar draws pob nodwedd warchodedig ac mae diffyg data wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodwedd warchodedig ar draws meysydd polisi a fyddai'n cryfhau polisi a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai dulliau casglu data ganiatáu ar gyfer croestoriadaeth a chynnwys dulliau ansoddol a meintiol.

Mae'n hanfodol bod bylchau data a thystiolaeth yn parhau i gael eu llenwi er mwyn cael dealltwriaeth genedlaethol, ranbarthol a sectoraidd gliriach o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae dystiolaeth o'r fath hefyd yn hanfodol i ddeall effeithiau COVID-19 a chynnydd yng nghostau byw yn well.

Canfyddiadau allweddol

Gostyngodd cyfran trigolion Cymru tair oed neu hŷn a oedd â sgiliau yn y Gymraeg ychydig rhwng 2011 a 2021, fel y gwnaeth y gyfran a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. (Mae nifer y trigolion Cymru a aned y tu allan i'r DU wedi cynyddu 28.3% ers 2011).

Cyflawnodd cyfran lai o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) 5 TGAU gradd A*-C (52.5%) yn 2020/21 o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys (79.8%). Nid yw'r bwlch cyrhaeddiad wedi newid ers yr adroddiad diwethaf ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r bwlch yn Lloegr.

Yn 2021/22, roedd 57.2% o bobl yng Nghymru 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, mae twf cyflogaeth cyn y pandemig wedi aros yn ei unfan ers ein hadolygiad statudol diwethaf, gyda'r enillion mewn cyflogaeth yn lleihau.

Yng Nghymru mae cyfraddau tlodi oedolion a phlant wedi bod yn amrywiol. Mae'n rhy gynnar i'r data ddangos effaith lawn y pandemig a'r argyfwng costau byw ond yn 2020/22 roedd dros un o bob pump o bobl (oedolion a phlant), a thros un o bob pedwar o blant, yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Rhwng 2020 a 2022 bu i nifer y teuluoedd mewn llety dros dro yng Nghymru bron a dyblu o 2,324 i 4,465 o aelwydydd.

Mae amcangyfrifon disgwyliad oes ar enedigaeth ar gyfer Cymru yn awgrymu bod gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi bod yn arafu, gydag awgrymiadau bod marwolaethau COVID-19 wedi cyfrannu at ostyngiad mewn disgwyliad oes yn y ffigurau diweddaraf. Mae disgwyliad oes cyfartalog yng Nghymru yn is nag yn Lloegr ond yn uwch nag yn yr Alban.

Addysg

Beth sydd wedi gwella?

Rhwng 2018/19 a 2020/21, gwellodd cyrhaeddiad TGAU ar gyfer disgyblion ag anabledd / Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ar gyfradd uwch nag ar gyfer y rhai heb anabledd / AAA. Fodd bynnag, mae bwlch mawr yn parhau rhwng y ddau grŵp.

Mae disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn gyson yn cyflawni cyfraddau cyrhaeddiad uwch ar TGAU na phlant Gwyn Prydeinig, gwahaniaeth sydd wedi cynyddu ychydig ers 2015/16. Fodd bynnag, mae amrywiadau mewn cyrhaeddiad rhwng ethnigrwydd.

Rhwng 2012 a 2017, yn natblygiad y blynyddoedd cynnar, lleihaodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys. Culhaodd y bwlch cyrhaeddiad blynyddoedd cynnar rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys o 21.4 pwynt canran i 17.0 pwynt canran ar gyfer bechgyn ac o 15.3 pwynt canran i 11.5 pwynt canran ar gyfer merched.

Bu cynnydd yng nghyfran y Cristnogion a'r rhai heb Grefydd sy'n cael gradd, o 22.9% a 23.7% yn y drefn honno yn 2012/13 i 32.3% a 31.0% yn 2021/22. Er gwaethaf hyn, nhw yw'r grwpiau sydd leiaf tebygol o gael gradd o hyd.

Canfu dadansoddiad o ddata Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) ar Gymru mai pobl 55–64 oed sydd leiaf tebygol o fod wedi gwneud unrhyw weithgaredd dysgu yn ystod y tri mis blaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y bobl o'r oedran hwn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu wedi tyfu'n gyson rhwng 2010/11 (12.6%) a 2021/22 (16.6%).

Beth sydd wedi gwaethygu?

O ran cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar, mae plant ag anabledd / AAA yng Nghymru yn cwmpo y tu ôl i blant heb anabledd / AAA ar gyfradd gyflymach nag yn Lloegr neu'r Alban.

Gwelodd plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ostyngiadau mawr yn natblygiad y blynyddoedd cynnar gan ostwng o 56.2% yn 2016/17 i 48.8% yn 2018/19.

Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a phenodol o'r ysgol wedi bod yn codi, ac mae cyfraddau'n parhau'n sylweddol uwch i fechgyn nag i ferched.

Bu cynnydd yn nifer y bobl ifanc 16–18 oed nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ar ddiwedd 2021, sef 13.6% (14,200) o'i gymharu â 11.7% (11,900) ar ddiwedd 2020. Bu cynnydd bach hefyd yn nifer y bobl ifanc 19–24 oed oedd yn NEET yn 2021, sef 16.3% (37,800) o'i gymharu â 15.8% (37,700) yn 2020.

Anghydraddoldebau parhaus

Yn 2018/19, y bwlch cyrhaeddiad mewn datblygiad blynyddoedd cynnar ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr o'i gymharu â phlant Gwyn Prydeinig oedd y mwyaf o'r holl grwpiau ethnig sef -35.0 pwynt canran.

Mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyflawni'r canlyniadau disgwyledig yn y blynyddoedd cynnar. Yn 2018/19 roedd bwlch o 8.8 pwynt canran yng nghyfran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd lefel dda o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar. Roedd y bwlch lleiaf yn 2016/17 (ar 7.1 pwynt canran).

Mae disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gwahardd ar gyfraddau uwch yn gyffredinol na disgyblion Gwyn, ond mae amrywiadau rhwng ethnigrwydd. Er enghraifft, mae myfyrwyr Tsieineaidd yn cael eu gwahardd yn barhaol ar y gyfradd isaf a myfyrwyr Asiaidd ar yr uchaf.

Mae anghydraddoldebau hiliol mewn profiadau o fwlio yn ysgolion Cymru. Yn ôl canfyddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), yn 2017/18 plant Sipsiwn, Roma, Teithwyr a Gwyn Gwyddelig a adroddodd y cyfraddau uchaf o gael eu bwlio wyneb yn wyneb (45% a 48% yn y drefn honno) a seiberfwlio (33% a 27%). Roeddent hefyd yn adrodd mai nhw oedd fwyaf tebygol o fod wedi bwlio person arall.

Mae'r bwlch anfantais barhaus wedi aros yr un fath ers 2011. Roedd disgyblion sy'n profi anfantais barhaus tua 29 mis ar ei hôl hi o ran cynnydd addysgol yn 2019.

Ar adeg Cyfrifiad 2021, roedd tua 8,200 o ofalwyr ifanc yng Nghymru (1.8% o blant 5–17 oed). Gall gofynion gofalu effeithio ar gyrhaeddiad addysgol ac atal gofalwyr ifanc rhag cyflawni eu potensial.

Mae dadansoddiad o ddata Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 yn awgrymu bod dynion ychydig yn fwy tebygol (8.9%) na menywod (7.3%) o beidio â chael unrhyw gymwysterau. Mae cyfrannau uwch o ddynion na menywod heb unrhyw gymwysterau ym mhob grŵp oedran hyd at 50–59 oed a 60–64 oed. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o feddu ar gymwysterau ar lefel 4 (TGAU) neu uwchlaw hynny.

Gwaith

Beth sydd wedi gwella?

Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd wedi cynyddu rhwng 2011/12 (57.6%) a 2019/20 (61.3%), tra bod cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi gostwng.

Mae pob grŵp ethnig mawr wedi gweld twf cyflogaeth rhwng 2010/11 a 2019/20, gyda thwf arbennig o fawr ar gyfer grwpiau ethnig Du (o 54.0% i 63.6%) a Phacistanaid (43.9% i 54.5%). Mae'r bwlch cyflogaeth rhwng grwpiau Gwyn Prydeinig a Du wedi cau'n llwyr, ac mae'r bwlch Gwyn Prydeinig/Pacistanaid wedi culhau'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'r newid yn amrywio rhwng grwpiau Du Affricanaidd a Charibïaidd, a rhwng y rhywiau o fewn y grŵp ethnig Du.

Rhwng 2013/14 a 2020/21, tyfodd cyfraddau cyflogaeth oedolion anabl o 31.7% i 40.1%, ac wedi hynny, culhaodd y bwlch cyflogaeth gydag oedolion nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai cyfraddau cyflogaeth uwch ar gyfer pobl anabl gael eu gyrru'n rhannol gan gynnydd mewn nifer yr achosion o anabledd ym Mhrydain.

Yng Nghymru (ond nid yn Lloegr na'r Alban), mae cyfran y gweithwyr lleiafrifoedd ethnig mewn cyflogaeth ansicr wedi gostwng rhwng 2010/11 a 2019/20. Fodd bynnag, mae gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn dal yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr na gweithwyr Gwyn Prydeinig.

Beth sydd wedi gwaethygu?

Yn ystod y pandemig, gwrthdrowyd tueddiadau blaenorol. Rhwng 2019/20 a 2021/22, gostyngodd cyfraddau cyflogaeth, cododd cyfraddau diweithdra, tra cododd cyfraddau anweithgarwch economaidd o 36.2% i 37.1%. Effeithiodd cyfnod y pandemig ar grwpiau mewn gwahanol ffyrdd:

- Mae grwpiau ethnig gwyn (fel cyfanrwydd) wedi dangos dirywiad mewn cyflogaeth a thwrf mewn anweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, dangosodd lleiafrifoedd ethnig nad ydynt yn wyn (fel cyfanrwydd) anweithgarwch economaidd heb ei newid yn ystod y pandemig.
- Mae oedolion 55–64 oed wedi dangos dirywiad sylweddol mewn cyflogaeth a chynnydd mewn anweithgarwch economaidd a diweithdra.

Yng Nghymru, dangosodd cyfradd cyflogaeth ansicr gweithwyr anabl gynnydd sylweddol yn 2021/22, gan greu bwlch sylweddol rhwng gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl.

Er bod enillion gweithwyr anabl wedi tyfu, mae'r bwlch enillion rhwng gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl wedi ehangu dros amser, o 12.0% yn 2013/14 i 15.6% yn 2019/20.

Rhwng 2013/14 a 2019/20, daeth gweithwyr anabl yn fwyfwy tebygol na gweithwyr nad ydynt yn anabl o fod mewn galwedigaeth â chyflog isel, wrth i'r bwlch rhwng canran y gweithwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl mewn galwedigaeth â chyflog isel ehangu.

Mae gweithwyr Du (38.4%) yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp ethnig arall o weithio mewn galwedigaeth â chyflog isel ac mae hyn wedi aros yn debyg ers 2011/12 (er gwaethaf y rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill yn dangos dirywiad). Mae hyn yn golygu bod y bwlch rhwng canran y gweithwyr Du a Gwyn Prydeinig mewn galwedigaeth â chyflog isel wedi ehangu.

Er gwaethaf twf hirdymor mewn cyflogaeth ymhlith y grŵp oedran 55–64, nid yw eu henillion wedi tyfu mewn termau real rhwng 2010/11 a 2019/20. Mae hyn wedi creu bwlch cyflog o 10.9% gyda gweithwyr 45–54 oed, a welodd dwf o 52% mewn enillion canolrifol fesul awr yn ystod yr un cyfnod.

Anghydraddoldebau parhaus

Mae sawl grŵp yn parhau i ennill llai yn 2019/20:

- Gweithwyr anabl o'u cymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl (bwlch enillion o 15.6%). Mae bylchau enillion yn arbennig o fawr i weithwyr ag anawsterau dysgu neu anabledau (bwlch enillion o 31.3%).
- Gweithwyr Bangladeshaidd o'u cymharu â phob grŵp ethnig arall (enillion 16.7% yn is na Gwyn Prydeinig) ac yna gweithwyr Pacistanaidd (10.5% yn is na Gwyn Prydeinig).
- Mae gan weithwyr Mwslimaidd gyflogau is na phob grŵp crefyddol/cred arall (15.8% yn is na gweithwyr heb Grefydd).

Mae pobl 16–24 oed a 55–64 oed yn parhau i fod â chyfraddau cyflogaeth is na phob grŵp arall o dan 65 oed. Mae'r ddau grŵp hyn yn dangos cyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd (hyd yn oed wrth eithrio myfyrwyr) ac mae pobl iau hefyd yn parhau i fod â chyfraddau diweithdra uwch. Ar ben hynny, mae gweithwyr 16–24 oed a gweithwyr dros 70 oed yn fwy tebygol na gweithwyr eraill o fod mewn cyflogaeth ansicr. Mae tystiolaeth o'r CIPD yn awgrymu bod pobl ifanc hefyd wedi'u gorgynrychioli mewn contractau dim oriau.

Safonau byw

Beth sydd wedi gwella?

Gostyngodd tlodi cymharol ar ôl costau tai yng Nghymru rhwng 2015/16 a 2019/20 ar gyfer:

- oedolion 25–34 oed o 28.5% i 20.0%
- oedolion 45–54 oed o 24.8% i 17.6%
- oedolion nad ydynt yn anabl o 22.4% i 17.9%
- dynion o 25.2% i 20.0%

Gostyngodd amddifadedd materol difrifol dros y tymor hir ar gyfer oedolion o oedran gweithio, o 26.1% yn 2010/11 i 14.2% yn 2019/20. Rhwng 2015/16 a 2019/20 gostyngodd amddifadedd materol difrifol ar gyfer:

- oedolion 25–34 oed, o 28.1% i 19.9%
- oedolion anabl (40.5% i 24.3%) ac oedolion nad ydynt yn anabl (15.3% i 11.0%), er ei fod yn parhau i fod yn uwch ymhlith oedolion anabl nag oedolion nad ydynt yn anabl

Beth sydd wedi gwaethygu?

Cododd tlodi cymharol ar ôl costau tai yng Nghymru ar gyfer:

- oedolion 65–74 oed, o 10.4% yn 2010/11 i 18.0% yn 2019/20
- oedolion Cristnogol, o 15.0% yn 2011/12 i 20.2% yn 2018/19

Mae nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro wedi codi o 2,324 ym mis Mawrth 2020 i 4,465 ym mis Mawrth 2022, yn ôl data gan Lywodraeth Cymru.

Cododd cyfraddau tlodi ymhlith pobl 65–74 oed o 10.4% yn 2010/11 i 18.0% yn 2019/20. Yn 2021, roedd 41% o'r holl aelwydydd tlodi tanwydd yn cael eu harwain gan rywun 65 oed neu hŷn.

Anghydraddoldebau parhaus

Nid yw tlodi cymharol ar ôl costau tai wedi gweld newid ystadegol arwyddocaol yn y tymor hir ar gyfer y boblogaeth oedolion na phlant yn gyffredinol, a oedd yn 20.9% a 31.3% yn y drefn honno yn 2019/20. Dyma rai grwpiau â chyfradd tlodi gyson uchel:

- oedolion 16–24 oed (27.6%) a 35–44 oed (27.8%)
- oedolion anabl (27.3%) sy'n parhau i fod yn fwy tebygol o fod mewn tlodi nag oedolion nad ydynt yn anabl (17.9%)
- aelwydydd rhiant sengl. Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru, o 2020 i 2022, roedd 38% o aelwydydd rhiant sengl mewn tlodi. Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod y rhan fwyaf (89.1%) o aelwydydd rhiant sengl yn cael eu harwain gan fenywod.

Nid oedd unrhyw newid ystadegol arwyddocaol mewn amddifadedd materol difrifol rhwng 2015/16 a 2019/20 ar gyfer oedolion 35–44 oed (16.4% i 17.7%).

Mae prinder lleiniau carafanau Sipsiwn a Theithwyr o hyd. Cynyddodd nifer y lleiniau ar safleoedd a ddarperir gan awdurdodau lleol o ddim ond 10 rhwng Gorffennaf 2018 a Gorffennaf 2022 (o 399 i 409), yn ôl data gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhieni sengl ac oedolion o grwpiau ethnig Du a lleiafrifoedd ethnig eraill yn parhau i gael eu gor-gynrychioli ymhlith ceisiadau digartrefedd:

- Yn 2018/19, roedd aelwydydd rhiant sengl yn cynnwys 32.3% o achosion digartrefedd yn ôl dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru
- Yn 2021/22, roedd 2.8% o ymgeiswyr a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd neu a ganfu eu hunain yn ddigartref yn Ddu, ac roedd 5.1% o grŵp ethnig arall yn ôl data gan StatsWales

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan 18% o anheddau yng Nghymru o leiaf un perygl categori 1, gan roi iechyd pobl hŷn mewn perygl penodol.

Iechyd a gofal cymdeithasol

Beth sydd wedi gwella?

Cynyddodd cyfran y bobl anabl a nododd iechyd da neu dda iawn o 35.8% i 37.7% rhwng 2016/17 a 2019/20, fodd bynnag, roedd hyn yn dal yn llawer is na'r rhai nad ydynt yn anabl (89.2% yn 2019/20).

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod rhywfaint o welliant yng nghyfradd hunanladdiad y rhai 15–24 oed wrth i hyn ostwng rhwng 2016 a 2019, o 11.7 i 7.5 marwolaeth fesul 100,000 o bobl. Nid oes unrhyw newid sylweddol wedi bod ym mhob grŵp oedran arall.

Cynyddodd cyfran y defnyddwyr gofal cymdeithasol a gytunodd fod gwasanaethau gofal a chymorth wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd uwch ar gyfer y rhai 65–74 oed (o 76.0% yn 2018/19 i 85.7% yn 2020/21) ac ar gyfer defnyddwyr gofal cymdeithasol Cristnogol (o 71.6% yn 2018/19 i 84.3% yn 2020/21).

Beth sydd wedi gwaethygu?

Mae dadansoddiad yr ONS yn dangos bod disgwyliad oes wedi gostwng rhwng 2018 a 2020 o 0.9 mlynedd i 82.1 mlynedd i fenywod ac 1.2 mlynedd i 78.3 mlynedd i ddynion. Mae hyn yn gysylltiedig â mwy o farwolaethau o COVID-19.

Yn 2019/20, roedd menywod yn llai tebygol o nodi eu bod mewn iechyd da neu dda iawn na dynion (69.9% o'i gymharu â 72.9% yn y drefn honno). Mae iechyd menywod wedi dirywio o 2016 pan adroddasant lefelau tebyg i ddynion (72.9% i fenywod o'i gymharu â 73.2% i ddynion).

Gwelodd cyfnod pandemig COVID-19 dueddiadau negyddol ar gyfer iechyd meddwl nifer o grwpiau:

- Canfu adolygiad gan Lywodraeth Cymru fod 69% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi nodi iselder, gan godi i 90% ymhlith y rhai a oedd wedi profi homoffobia neu drawsffobia.
- Canfu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fod plant a phobl ifanc â symptomau uchel iawn o iechyd meddwl gwael wedi cynyddu o un o bob pump i un o bob pedwar rhwng 2019 a 2021.
- Canfu Dadansoddiad Cyllidol Cymru fod menywod wedi nodi dirywiad mewn iechyd meddwl rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 o'i gymharu â 2009–2019. Cynyddodd lefelau symptomau cyfartalog iechyd meddwl gwael ymhlith menywod fwyaf ym mis Ionawr 2021 (16.2% o'i gymharu â'r un mis cyn y pandemig).
- Canfu'r dadansoddiad hwn hefyd fod lleiafrifoedd ethnig wedi'u heffeithio'n anghymesur gan golli ffactorau a oedd yn amddiffyn iechyd meddwl, fel cyflogaeth sefydlog a diogel. Er enghraifft, roedd gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd dros dair gwaith yn fwy tebygol o weithio mewn diwydiant a gaeodd dros COVID-19 o'i gymharu â gweithwyr Gwyn.

Roedd cyfradd y plant oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol wedi bod yn cynyddu'n sylweddol o 5,160 yn 2010 i 5,610 yn 2015.

Anghydraddoldebau parhaus

Yn 2018/19, adroddodd rhai grwpiau am iechyd meddwl gwaeth:

- Adroddodd mwy o oedolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol am iechyd meddwl gwaeth (31.8%) nag oedolion heterorywiol (20.9%)
- Adroddodd menywod am ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth na dynion (22.6% o'i gymharu â 20.3%)
- Nododd 34.3% o oedolion anabl fod ganddynt iechyd meddwl gwael, o'i gymharu â 15.4% o bobl nad ydynt yn anabl

Canfu rhwydwaith iechyd ac Ymchwil Ysgolion fod 41% o blant Sipsiwn a Theithwyr wedi nodi lefelau uchel iawn o symptomau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael yn 2021.

Canfu ymchwil gan rwydwaith meincnodi'r GIG fod y galw am wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn uchel, ond bod rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:

- Rhwng 2020 a 2022 bu cynnydd o 39% yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

- Mae plant Asiaidd, Cymry Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig heb gynrychiolaeth ddigonol mewn llwythi achosion cymunedol, tra bod plant Duon wedi'u gorgynrychioli mewn gwelyau cleifion mewnol.

Canfu rhwydwaith meincnodi'r GIG hefyd fod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU. Yn 2021/22, roedd un o bob pedwar claf yng Nghymru, o'i gymharu ag un o bob pump claf yn y DU, yn aros am dros 18 wythnos.

Cyfiawnder a diogelwch personol

Beth sydd wedi gwella?

Mae data'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn dangos bod nifer y plant sydd mewn cadwad ieuencid wedi gostwng. Ar gyfartaledd, roedd 450 o blant 10–17 oed yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn 2021/22, gostyngiad o 47% ers 2018/19 a'r nifer isaf a gofnodwyd erioed.

Mae amcangyfrif o nifer yr achosion o droseddau casineb yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr wedi gostwng rhwng 2007–2009 a 2017–2020, er nad ar draws yr holl linyddau a fonitwyd. Dros y cyfnod hwn:

- mae troseddau casineb cyfeiriadedd rhywiol wedi gostwng 67%, er bod y gostyngiad hwn wedi arafu ers 2012–2015
- mae troseddau casineb anabledd wedi gostwng 38%
- mae troseddau casineb hil wedi gostwng 31%, er bod hyn yn ymddangos fel pe bai'n lefelu ers tua 2012–2015, pan nad yw'r gwahaniaethau bellach yn arwyddocaol yn ystadegol

Mae data o'r Swyddfa Gartref yn dangos bod cofnodi troseddau casineb gan yr heddlu wedi cynyddu'n gyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Credir bod hyn oherwydd gwelliannau yn y ffordd y mae heddluoedd yn adrodd am y troseddau hyn ac yn eu harferion cofnodi. Roedd troseddau casineb a gofnodwyd ar gyfer pob maes ar ei lefel uchaf yn 2021/22.

Beth sydd wedi gwaethygu?

Mae data o'r Swyddfa Gartref yn dangos bod cyfanswm o 20,919 o bobl wedi mynd i mewn i gadw mewnfudwyr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 o dan bwerau mewnfudo, 10% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn parhau â thuedd ar i fyny a welwyd ers 2023 a ddilynodd duedd ar i lawr tymor hwy ers 2015³.

Mae dadansoddiad y Swyddfa Gartref o ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn dangos cynnydd gwirioneddol mewn troseddau a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd o amgylch digwyddiadau sbarduno allweddol, gan gynnwys Refferendwm yr UE a phrotestiadau Black Lives Matter a gwrthbrotestiadau asgell dde eithafol.

Ni gostyngodd troseddau casineb â chymhelliant crefyddol rhwng 2007–2009 a 2017–2020, mewn ffordd debyg i droseddau casineb eraill.

Mae cyhuddiadau am droseddau treisio wedi gostwng. Canfu ein dadansoddiad o ddata canlyniadau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, rhwng 2015/16 a 2020/21, fod cyfran y troseddau treisio ar gyfer dioddefwyr benywaidd 16 oed a throsodd wedi gostwng o 10.5% i 2.6%, tra ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd 16 oed a throsodd wedi gostwng o 5.1% i 1.0%.

Nid yw rhai achosion yn gorffen mewn cyhuddiad gan yr heddlu oherwydd bod dioddefwyr yn tynnu eu hachos yn ôl. Mae dioddefwyr benywaidd wedi bod yn gyson yn fwy tebygol o dynnu eu hachos yn ôl pan gaiff y person amheus ei adnabod na dioddefwyr gwrywaidd.

³Faint o bobl sy'n cael eu cadw o dan bwerau mewnfudo yn y DU? Y Swyddfa Gartref 25 Mehefin 2025 [cyrchwyd 28 Gorffennaf 2025]

Canfu ein dadansoddiad o ddata canlyniadau'r heddlu fod cyfran y dioddefwyr benywaidd 16 oed a throsodd a dynnodd eu hachosion yn ôl pan gafodd y person amheus ei adnabod wedi cynyddu o 35.4% yn 2015/16 i 42.0% yn 2020/21, tra ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd, arhosodd yn gymharol sefydlog, gan gynyddu o 21.5% yn 2015/16 i 23.6% yn 2020/21 yn unig.

Canfu ein hymchwiliad i brofiad pobl anabl o'r system cyfiawnder troseddol fod y defnydd cynyddol o gysylltiadau o bell yn rhwystro cyfranogiad effeithiol a bod diffynyddion niwroamrywiol yn ei chael hi'n arbennig o anodd dilyn a chymryd rhan mewn achosion.

Anghydraddoldebau parhauss

Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref yn dangos bod pobl Dduon yng Nghymru a Lloegr yn fwy tebygol o gael eu harestio, cael grym yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn gan yr heddlu, a bod yn destun stopio a chwilio.

- Yn 2021/22 roedd y gyfradd arestio 2.4 gwaith yn uwch i bobl Dduon na phobl Wynion ac 1.3 gwaith yn uwch i bobl o'r grŵp ethnig cymysg. Roedd y gyfradd arestio i bobl Asiaidd (0.8) a grwpiau ethnig eraill (0.9) yn is na phobl Wynion am y tro cyntaf.

- Defnyddiodd yr heddlu rym yn erbyn pobl Dduon ar gyfradd 3.5 gwaith yn uwch nag yn erbyn pobl Wynion yn 2021/22 (3.0 wrth eithrio Heddlu'r Metropolitan).

- Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, cafodd pobl Dduon eu stopio a'u chwilio 4.9 gwaith yn amlach na phobl Wynion, i lawr o 5.6 yn 2020/21.

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod unigolion Duon yn parhau i gael eu gorgynrychioli mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Yn 2022, datganodd 13% o garcharorion yng Nghymru a Lloegr eu bod o grŵp ethnig Du neu Ddu Prydeinig (o'i gymharu â 4% yn y boblogaeth). Mae hyn wedi aros yn sefydlog ers 2013.

Canfu arolygon Arolygiaeth Carchardai EM fod carcharorion anabl yng Nghymru a Lloegr yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel.

Amcangyfrifodd dadansoddiad ONS o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr fod 121,000 o fenywod yn profi treisio a 103,000 yn profi ymosodiad trwy dreiddiad y flwyddyn, o'i gymharu â 7,000 a 16,000 o ddynion yn profi treisio ac ymosodiad trwy dreiddiad yn y drefn honno. Mae hyn wedi aros yn sefydlog dros amser.

Cyfranogiad

Beth sydd wedi gwella?

Yn etholiad Senedd 2021 (ar gyfer y Chweched Senedd) roedd 43.3% o aelodau etholedig y cynulliad yn fenywod, cynnydd o 41.7% yn etholiadau 2016 (ar gyfer y Pumed Senedd). Fodd bynnag, oherwydd newidiadau aelodaeth yn ystod y Pumed Senedd, roedd nifer y menywod mewn swyddi yn y Senedd wedi cynyddu i 48.3% cyn etholiad 2021.

Canfu Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yng Nghymru 2022 mai dim ond 4% o gynghorwyr sir a chymuned etholedig oedd o gefndir lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn), o'i gymharu â 6.2% ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru. Fodd bynnag, mae cyfran y cynghorwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o'i gymharu ag arolwg 2018.

Mae cynrychiolaeth menywod a lleiafrifoedd ethnig wedi gwella ymhlith penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae data gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn dangos, yng Nghymru:

- Cynyddodd cyfran y penodiadau cyhoeddus ac ailbenodiadau pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o 3.9% yn 2015/16 i 12.7% yn 2021/22.
- Yn 2021/22, roedd 58.8% o benodeion newydd yng Nghymru yn fenywod, o'i gymharu â 55.6% yn 2020/21.

Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru ym mhob grŵp oedran sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol wedi cynyddu. Yn 2020/21, mae pobl 65–74 oed (89%) a 75 oed a throsodd (90%) yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol na'r rhai mewn grwpiau oedran iau.

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos, rhwng 2018/19 a 2021/22 yng Nghymru, fod cyfran yr aelwydydd â mynediad i'r rhyngrwyd gartref wedi gwella ar gyfer pobl 65–74 oed (83% i 88%) a 75 oed a throsodd (54% i 71%).

Beth sydd wedi gwaethygu?

Canfu dadansoddiad o Arolwg Cenedlaethol Cymru fod menywod yn sylweddol llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol na dynion. Roedd menywod yn teimlo'n llai diogel yn 2021/22 nag yr oeddent yn 2016/17. Yn 2021/22, roedd 51% o fenywod yn teimlo'n ddiogel gartref ac yn cerdded neu'n teithio yn yr ardal leol (56% yn 2016/17) o'i gymharu ag 81% o ddynion (82% yn 2016/17).

Mae dadansoddiad lechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos, yn 2016/17, fod 18.3% o bobl ifanc wedi nodi eu bod wedi gwneud y 60 munud o weithgarwch corfforol a argymhellir y dydd yn ystod y saith diwrnod diwethaf, o'i gymharu â 16.2% yn 2021/22.

Anghydraddoldebau parhaus

Pobl 75 oed a throsodd oedd fwyaf tebygol o fod wedi pleidleisio (80.8%) yn etholiad cyffredinol 2019, a'r rhai 18–24 oed (53.6%) a 25–34 oed (53.6%) oedd lleiaf tebygol.

Yn 2018/19, cytunodd 72.6% o oedolion heterorywiol yng Nghymru eu bod yn perthyn i'w cymuned leol o'i gymharu â 63.2% o oedolion sy'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu â chyfeiriadedd rhywiol 'arall'.

Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos yn 2021/22:

- Roedd pobl 65–74 oed (40.5%) a 75 oed a throsodd (17.2%) yn llai tebygol na grwpiau oedran eraill o fod wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu weithgaredd corfforol.
- Mae dynion yn gyson yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na menywod yng Nghymru, sef 60.7% o'i gymharu â 51.5% yn y drefn honno yn 2021/22.

Mae canfyddiadau gan Chwaraeon Cymru yn dangos, yn 2021/22, fod 42% o oedolion â salwch, anabledd neu wendid hirdymor (o'i gymharu â 68% heb) wedi cymryd rhan mewn o leiaf un gamp neu weithgaredd corfforol.

Mae oedolion hŷn mewn mwy o berygl o allgáu digidol ac anfantais. Mae'r rhai 65 oed neu hŷn yn dal yn llawer llai tebygol na grwpiau oedran iau o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref. Ar ben hynny, dim ond 24% o'r rhai dros 70 oed sy'n debygol o ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi eu hiechyd o'i gymharu ag 87% o bobl 16–19 oed.

Casgliadau

Mae'r data yn ein Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? 2023 yn sail i'r dystiolaeth yn y briff hwn ac yn dangos darlun cymysg ers ein hadroddiad yn 2018.

Mae rhai meysydd o gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mwy o amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus
- culhau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- culhau'r bwlch cyflogaeth rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl

Mae gwaith sylweddol i'w wneud i fynd i'r afael â rhai problemau hirhoedlog, ac i ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Rydym wedi gweld ychydig o gynnydd mewn sawl maes. Er enghraifft, mae cyrhaeddiad addysgol dysgwyr anabl yng Nghymru yn cwmpo y tu ôl i Loegr a'r Alban. Mae tlodi yn parhau i fod yn broblem barhaus. Rydym wedi gweld cynnydd mewn troseddau a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd ar yr un pryd â gostyngiad yn nifer y troseddau sy'n arwain at gyhuddiad. Mae heriau sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys deallusrwydd artiffisial a newid hinsawdd.

Mae bylchau data a thystiolaeth yng Nghymru. Maent yn cyfyngu ar ein gallu i wneud asesiad cynhwysfawr a manwl o gynnydd.

Gwaethygydd y bylchau hyn gan y toriad i lif data a achoswyd gan y pandemig. Mae'r bylchau'n bodoli wrth gasglu data yn gyffredinol ac mewn data wedi'i ddadansoddi yn ôl rhanbarth a nodwedd warchodedig.

Rydym yn croesawu sefydlu unedau data cenedlaethol newydd. Mae'n hanfodol bod yr unedau data ac eraill yn parhau i fynd i'r afael â bylchau data er mwyn sicrhau mynediad at ddata gwell, wedi'i ddadgrynhoi a chyson. Gall hyn lywio gwneud penderfyniadau strategol a chyflawni effaith.

Mae'r briff hwn yn cynnwys cipolwg ar ganfyddiadau allweddol ein hadroddiad A yw Cymru'n Decach? 2023, gan dynnu ar ein data a'n tystiolaeth. Rydym yn annog pob plaid ac ymgeisydd sy'n sefyll i'w hethol i'r Senedd ym mis Mai 2026 i ystyried yr adroddiad llawn wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer Cymru.

Cysylltiadau

wales@equalityhumanrights.com

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o'n [gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu eich adborth.

I gael gwybodaeth ynghylch cael mynediad at un o'n cyhoeddiadau mewn fformat amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Cadwch lygad ar ein newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf drwy gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr.](#)

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Oriau 09:00 i 19:00 (Dydd Llun-Ddydd Gwener)
10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2025 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Awst 2025

Eitem 3.2

Buffy Williams MS
Chair – Children, Young People and Education Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

3rd March 2026

Dear Chair

Re: Children, Young People and Education Committee Legacy Report

We're writing on behalf of the All-Wales Occupational Therapy Paediatrics Network, which is made up of OTs from across Wales working in the Welsh NHS, schools, local authorities and independent practice.

Through the Royal College of Occupational Therapists (RCOT) we fed into your current inquiry on education and ALN reforms, with our focus being on the impact of these changes on children and how we can best support them.

We work very closely with school communities in enabling ALN students to receive the support they deserve. It was interesting to read how one ALN school leader said in your teacher recruitment and retention report that they are expected to be a range of professions, including occupational therapists.

As the work of the Committee comes to an end for the Sixth Senedd, we wanted to write to offer up some possible avenues of inquiry for the Seventh Senedd, if the Committee is re-established, that you could include in your legacy report.

The benefits of widening OT participation in nurseries and schools: OTs work with students on their physical, sensory, or cognitive difficulties to improve independence and participation in school activities. Currently, there is a scheme in Neath Port Talbot and Swansea council areas which sees OTs working with secondary schools, giving teachers the tools they need to identify students with difficulties and how best to support them or refer to specialist teams. This scheme is enabling teachers to focus on teaching and getting early intervention in place for the student.

OT training and CPD: there has been great progress in the number of training places for OT students across Wales over the last few years, especially with the development of the OT course at Swansea University. However, we are keen to widen accessibility even further through degree apprenticeships, enabling people from all communities to start a career in OT. There is, however, limited opportunities for CPD in Wales. A number of courses are only available in other parts of the UK and this impacts what Welsh NHS funding is available for Welsh workers to apply for these courses. We are also

concerned around the limited access to specific paediatric training as OTs are usually part of a generic adult team.

Access of independent practitioners into schools: the demand for students to have OT assessments is growing and a number of parents are utilising independent OT practices to carry these out, to ensure their children receive all the support they need. Unfortunately, there is inconsistency across schools and local authorities in enabling these assessments to be carried out in school with the OT monitoring the student in the classroom. This is having an impact not only on the family to receive timely advice but on the independent practices who are struggling to fully provide for their clients.

We would be delighted to meet with yourself and the Committee Clerk to explore the scope of these inquiries and how they would be beneficial to the wider education community.

We look forward to hearing from you.

Paula Curtis

Chair, All-Wales Occupational Therapy Paediatrics Network

Kelly Southway

Vice Chair, All-Wales Occupational Therapy Paediatrics Network

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

Eich cyf/Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 4 Mawrth 2026

Annwyl Buffy Williams AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2026 yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor ar 28 Ionawr. Rydym yn croesawu'r cyfle i egluro ymhellach rôl strategol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o fewn y system gofal cymdeithasol plant, ac i ailddatgan ein hymrwymiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod ffocws sylweddol y Pwyllgor ar ofal cymdeithasol plant drwy gydol y Chwched Senedd ac yn rhannu eich pryderon ynghylch y pwysau systemig sydd wedi cyfrannu at amrywiadau mewn ansawdd, arferion diogelu, trefniadau llywodraethu, a phrofiadau bywyd plant. Fel arolygiaeth annibynnol Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, rydym yn cymryd o ddifrif ein cyfrifoldeb i nodi risg, tynnu sylw at wersi a ddysgwyd, a defnyddio ein llais i gefnogi gwelliannau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn mynd i'r afael â phob un o gwestiynau'r Pwyllgor.

1. Rôl strategol AGC ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol: Sut y mae AGC yn sicrhau bod ei harolygiadau ei hun a'i harolygiadau ar y cyd o awdurdodau lleol, ei hadolygiadau thematig, a'i gwybodaeth yn gweithio i adeiladu darlun cydlynol o berfformiad systemau ledled Cymru? A oes mecanweithiau effeithiol ar waith i AGC nodi patrymau, uwchgyfeirio pryderon i Lywodraeth Cymru a chefnogi'r gwelliannau ym mhob awdurdod lleol?

Mae AGC yn gweithredu model arolygu a sicrwydd ar sail risg, wedi'i lywio gan ein fframwaith Rheoli Gwybodaeth, Perfformiad a Risg (IPERM). Mae'r Fframwaith hwn yn ein galluogi i syntheseiddio gwybodaeth o arolygiadau, hysbysiadau, cwynion, gweithgarwch

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 7900 126
✉ agc@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Merthyr Tydfil Office
Welsh Government
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoleiddio, a gwybodaeth gan bartneriaid i nodi risgiau, patrymau ac amrywiadau sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru.

Mae ein goruchwyliaeth ar lefel system yn cael ei chryfhau drwy:

Arolygiadau ar y cyd ac adolygiadau thematig

- Mae'r **arolygiadau ar y cyd** ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn fodd i ni archwilio profiadau plant ar draws ffiniau sefydliadol a deall y modd y mae'r system ehangach yn gweithredu, yn hytrach na gwerthuso un asiantaeth gan weithio ar wahân.
- Mae'r **adolygiadau cenedlaethol thematig** yn edrych yn fwriadol ar draws Cymru i ddal "drych o flaen y system"—gan amlygu cryfderau, meysydd pryder, a gwersi a ddysgwyd sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol.

Mae'r [Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant 2022 - 23](#) a'r [Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant 2019 – 2024](#) yn enghreifftiau arwyddocaol diweddar o waith gydag arolygiaethau eraill i ddarparu dull system gyfan o ystyried perfformiad awdurdodau lleol.

Datblygwyd y dulliau hyn yn union am na allai arolygiadau traddodiadol gan un asiantaeth ystyried risgiau ar lefel system yn llawn.

Ar dudalen 38 [Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2024-25](#), nodir meysydd pwysig i'w gwella sy'n deillio o'n gwaith mewn awdurdodau lleol – gan gynnwys yr angen i gymhwyso trothwyon ac amserlenni'n fwy cyson fel sy'n ofynnol gan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mecanweithiau rhannu gwybodaeth ac uwchgyfeirio

Rydym yn cynnal ymgysylltiad strwythuredig â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r trafodaethau hyn yn fodd i ni fynegi pryderon yn gynnar—yn enwedig mewn perthynas â diogelu, y gweithlu, trefniadau llywodraethu, a throthwyon ar gyfer ymyrryd.

Pan fydd AGC yn nodi methiannau difrifol, cronrus, parhaus neu systemig o fewn awdurdod lleol, bydd yn gweithredu ei phroses ffurfiol ar gyfer Gwasanaethau y mae'n Rhaid eu Gwella'n Sylweddol. Bydd gwasanaeth a ddynodir fel un y mae'n rhaid ei wella'n sylweddol yn destun Cynhadledd Gwella ar unwaith, a fydd yn cynnwys uwch-arweinwyr a phob partner perthnasol, lle bydd AGC yn nodi'r camau gweithredu blaenoriaeth, y disgwyliadau o ran tystiolaeth, a'r amserlenni ar gyfer newid. Dilynir hyn gan waith monitro manylach, a all gynnwys mwy o weithgarwch arolygu, adolygiadau o dystiolaeth wedi'u targedu, a chyfarfodydd sicrwydd cyson i olrhain cynnydd a sicrhau bod risgiau a chamau gweithredu yn cael eu rheoli'n briodol.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gan rannu mewnwelediadau perthnasol a sicrhau cysondeb o ran gwelliant a arweinir gan y sector. Yn ogystal â bod yn rheoleiddiwr y gweithlu, rôl Gofal Cymdeithasol Cymru yw arwain

gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru – gan gynnwys gwelliant mewn awdurdodau lleol. Mae AGC yn aelod o'r Grŵp Gweithredu Strategol ar gyfer Gwella sydd newydd ei sefydlu a fydd yn cael ei gadeirio gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn Llywodraeth Cymru. Drwy ein cyfraniad at waith y grŵp hwn, byddwn yn parhau i rannu'r gwersi a ddysgwyd o'n harolygiadau, ein gwybodaeth, a'n hymgysylltiad strategol, a chyfrannu at ddysgu system ar lefel genedlaethol.

Er nad yw AGC yn asiantaeth gwella, gallwn nodi problemau, arwain a chefnogi gwelliant. Mae ein dull o arolygu awdurdodau lleol yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r dull yn seiliedig ar bedair egwyddor graidd: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, a gweithio mewn partneriaeth. Rydym yn ceisio cydnabod y cryfderau yn y system a hefyd bod yn glir ynghylch y meysydd i'w gwella.

Fodd bynnag, nid oes gennym y pŵer i fynnu newid o ran arweinyddiaeth, adnoddau na chyfeiriad strategol awdurdodau lleol.

2. Dysgu o arolygiadau: Sut y mae AGC yn sicrhau ei hun – a ni – bod materion mewn adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hamlygu'n gyflym i awdurdodau lleol eraill? Nodwn fod arolygiad ar y cyd gan AGC ac Estyn wedi'i gynnal yn dilyn adolygiad Gwynedd. Pa newidiadau, os o gwbl, y bydd AGC yn eu gwneud i'w harolygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod methiannau diwylliannol, trefniadau llywodraethu gwan neu achosion o ddiffyg cydymffurfio â phrosesau a chanllawiau diogelu sefydledig bob amser yn cael eu nodi mewn adroddiadau arolygu?

Rydym yn cytuno â phwyslais y Pwyllgor ar ddysgu a lledaenu gwybodaeth. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi cryfhau ein prosesau mewnol fel bod pob adroddiad arolygu yn cael ei rannu'n awtomatig â phob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru, gan sicrhau ymwybyddiaeth gyflym o themâu trawsbynciol.

Mewn arolygiadau yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cryfhau ymhellach y gwaith o graffu ar ddiwylliant, didwylledd yr arweinwyr, a'r trefniadau llywodraethu.
- Adeiladu ar y gwersi o Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd.
- Ymgorffori'r gwaith sy'n deillio o'n rhaglen diwylliannau cadarnhaol, sy'n anelu at gefnogi arolygwyr i ddeall diwylliant sefydliadol, chwilfrydedd proffesiynol a diogelwch seicolegol yn well.
- Gwella'r prosesau myfyrio mewnol fel ein bod yn mireinio ein dulliau'n barhaus ac yn gwella'r amodau i sicrhau bod plant, staff a phartneriaid yn teimlo'n ddiogel wrth rannu pryderon ag arolygwyr.

Rydym yn parhau i fod yn siomedig, yn ystod gwaith yn y gorffennol—gan gynnwys yr arolygiad yn 2018 yng Ngwynedd—nad oedd materion a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddarach

drwy'r Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u mynegi na'u datgelu i'r arolygwyr. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd meithrin diwylliannau o onestrwydd, didwylledd a dysgu ar y cyd.

3. Llais y plentyn: Sut y mae AGC yn cryfhau ei dull ei hun o glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc? Sut mae hyn yn profi a yw lleisiau plant yn dylanwadu'n wirioneddol ar ganlyniadau arolygiadau?

Mae AGC yn cydnabod bod yn rhaid i brofiadau a barn plant lywio canlyniadau arolygiadau mewn ffordd ystyrlon. Ar draws y rhaglen arolygu lawn – gwasanaethau awdurdodau lleol, gwasanaethau rheoleiddiedig, gofal plant a chwarae, maethu a mabwysiadu, a gwaith thematig – mae llais y plentyn yn ganolog.

Rydym yn gwneud y canlynol:

- Siarad yn uniongyrchol â phlant yn ystod pob arolygiad o wasanaethau rheoleiddiedig (goafal preswyl a gofal plant a chwarae).
- Ceisio ymgysylltu â phlant yn ystod arolygiadau o awdurdodau lleol. Mae'r arolygwyr bellach yn defnyddio ystod eang o ddulliau ymgysylltu—gan gynnwys sgysysau uniongyrchol (lle mae'r plant yn dymuno ymgysylltu), galwadau ffôn neu negeseuon e-bost dilynol, arolygon, arsylwi ar ryngweithiadau o ddydd i ddydd, a gwybodaeth gan eiriolwyr, gweithwyr cymdeithasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol, cwynion a hysbysiadau.
- Gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru, sy'n eistedd ar ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol.
- Wedi llunio'r adnodd, "[Beth yw Gofal Da](#)," a ddatblygwyd ar y cyd â phlant a phobl ifanc i ddisgrifio'r hyn y maent am ei gael o ofal preswyl, gan arwain at Lywodraeth Cymru yn llunio'r ddogfen "[Canllawiau ar gofrestru cartref gofal i blant yng Nghymru](#)"
- Parhau i archwilio ffyrdd newydd o gynnwys plant yn fwy cyson mewn arolygiadau o awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy grwpiau gofalwyr ifanc, fforymau ieuencid, a gweithgareddau ymgysylltu cyn arolygiadau a arweinir gan reolwyr arolygu. Er enghraifft, cyn arolygiad sydd ar fin cael ei gynnal o wasanaethau plant ym Mlaenau Gwent, aethom yn ddiweddar i fforwm gofalwyr ifanc a grŵp sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol i roi cymorth emosiynol i blant sydd wedi profi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod.

Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd, yn enwedig i amrywio'r lleisiau a glywn ac osgoi gorddibyniaeth ar yr un grŵp bach o gynghorwyr ifanc sydd eisoes yn ymwneud ag ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull gweithredu a phrofi i ba raddau y mae barn plant yn llywio ein dyfarniadau mewn gwirionedd.

4. Goruchwyliaeth a bylchau mewn gwybodaeth: Nid oes mecanwaith goruchwyllo penodol i Gymru mewn achosion Amddifadu o Ryddid sy'n ymwneud â phlant, fel yr amlygwyd yn ein sesiwn ac fel y nodwyd yn ein gwaith craffu blaenorol. Pa rôl y mae AGC yn credu y dylai ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r bwch hwn, a phwy yn eich

barn chi ddylai fod yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth o blant sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau anghofrestredig?

Gorchmynion Amddifadu o Ryddid (DoL)

Mae'r Pwyllgor yn iawn i dynnu sylw at y ffaith nad oes mecanwaith cenedlaethol yng Nghymru i gasglu data ynghylch Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn achos plant.

Ar hyn o bryd:

- Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi gwybod i AGC am blant sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- Mae rhywfaint o wybodaeth yn dod i'r amlwg yn anuniongyrchol drwy ein harolygiadau neu drwy'r sector gofal preswyl, ond mae'r broses hon yn anghyflawn.
- Mae nifer yr hysbysiadau a gawn gan ddarparwyr am blant sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi codi'n sylweddol—o 16 yn 2023/24 i 50 yn 2024/25. Rydym yn credu bod y cynnydd hwn wedi digwydd am ein bod wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr ym mis Chwefror 2024.

Yn ein barn ni, gallai mecanwaith casglu data cenedlaethol, o bosibl drwy set ddata 'Pwynt Gwirio' yr awdurdod lleol, fod yn ateb posibl. Byddai hyn yn sicrhau gwelededd i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y Llys Teulu, ac arolygiaethau fel ei gilydd.

Plant mewn lleoliadau anghofrestredig

Mae AGC yn parhau i fonitro gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestrriad ac yn cymryd camau gorfodi lle y bo'n briodol. Fodd bynnag:

- Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi gwybod i ni am leoliadau anghofrestredig; mae'r trefniadau presennol yn seiliedig ar gytundeb ac arferion, nid ar gyfraith.
- Er ein bod yn cael gwybodaeth am leoliadau anghofrestredig, nid ydym yn cadw nac yn gofyn am ddata manwl am blant unigol, gan nad yw hyn yn angenrheidiol nac yn briodol ar gyfer ein rôl reoleiddio.
- Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod y lleoliadau hyn yn ddiogel ac yn rhai dros dro, ac am sicrhau lleoliadau cofrestredig cyn gynted â phosibl.

Byddem yn croesawu trafodaeth system gyfan ynghylch a yw'r dyletswyddau hysbysu presennol yn ddigon da.

5. Pwysau ariannol: Rydym yn ymwybodol o adroddiadau bod rhai darparwyr preifat sy'n darparu llety i blant mewn gofal wedi dyblu costau eu lleoliadau yn ystod y cyfnod o weithredu'r ddeddfwriaeth i gyfyngu ar elw. Pa mor bryderus yw AGC

ynghylch effaith hyn ar gyllidebau awdurdodau lleol ac, yn ei dro, ar ddarpariaeth a sefydlogrwydd gwasanaethau cymdeithasol plant yn y tymor byr i ganolig?

Rydym wedi clywed yn anecdotiaidd bod rhai darparwyr er elw yn cynyddu ffioedd lleoliadau'n sylweddol yn ystod y cyfnod o bontio tuag at ddileu elw o wasanaethau plant. Rydym hefyd wedi clywed am gynnydd tebyg mewn costau ymhlith rhai darparwyr nid-er-elw.

Fodd bynnag:

- Nid ydym wedi derbyn tystiolaeth eang gan awdurdodau lleol bod eu cyllidebau wedi'u hansefydlogi'n benodol oherwydd y diwygiadau "dileu elw".
- Rydym yn ymwybodol bod cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol plant ledled Cymru dan bwysau'n rheolaidd, ac mae hyn yn bryder ers amser maith.
- Ein blaenoriaeth bob amser yw sicrhau bod plant yn derbyn lleoliadau diogel a phriodol, a byddwn yn monitro'r effaith ar blant yn agos wrth i'r diwygiadau fynd rhagddynt.

Mae'r cyfnod pontio hyd at 2030 i'w groesawu gan ei fod yn galluogi'r newid hanfodol o wasanaethau er elw i wasanaethau nid-er-elw. Serch hynny, ceir ansicrwydd, gan gynnwys cwestiynau ynghylch cyflenwad digonol a phriodol o leoedd mewn cartrefi gofal i blant yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru wrth i'r farchnad esblygu.

6. Edrych ymlaen at y dyfodol: Beth yw'r neges bwysicaf yr hoffech ei chyfleu i Lywodraeth nesaf Cymru ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gwaith o geisio sicrhau y darperir gwasanaethau o safon i blant a phobl ifanc?

Bydd gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle hollbwysig i sicrhau y darperir digon o adnoddau i AGC a'i bod yn cael ei grymuso i gyflawni ei swyddogaethau, a bod arolygiaethau a chyrrff gwella ar draws y system yn cydsynio o ran diben, rhannu data ac uchelgais. Dim ond yr adnoddau sydd ar gael sy'n cyfyngu ar ein huchelgais yn AGC.

Mae sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc yn gofyn am arweinyddiaeth a rennir ar draws awdurdodau lleol, byrddau ieuchyd, arolygiaethau, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Ni all yr un corff gyflawni hyn ar ei ben ei hun. Bydd dull cydlynol, amlasiantaethol—a gefnogir gan atebolrwydd a data clir—yn hanfodol i gyflawni newid ystyrlon pellach.

7. Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor

- 1. Pa mor helaeth y mae arolygwyr AGC yn siarad yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, a sut mae hyn wedi newid dros amser?**

Bydd pob un o'n harolygiadau o wasanaethau gofal plant a chwarae ac arolygiadau o gartrefi gofal i blant yn cynnwys siarad â phlant. Yn 2024 – 2025 gwnaethom gynnal 946 o

arolygiadau o wasanaethau gofal plant a chwarae. Ym mhob un o'r rhain, siaradodd yr arolygwyr yn uniongyrchol â phlant. Yn yr un flwyddyn gwnaethom gynnal 201 o arolygiadau o gartrefi gofal i blant – unwaith eto, byddai pob un o'r rhain wedi cynnwys siarad â phlant a gwrando arnynt.

Yn ein harolygiadau o wasanaethau plant awdurdodau lleol, bydd yr arolygwyr yn cael sgysiaid uniongyrchol â phlant lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd plant sydd yng nghanol cyfnod trawmatig yn eu bywydau yn dymuno cwrdd â ni, neu y gallai niweidio eu llesiant/adferiad iddynt wneud hynny. Ym mhob arolygiad o wasanaethau plant, byddwn bob amser yn ystyried amgylchiadau plant unigol drwy gofnodion y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn ymgysylltu ag aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol er mwyn cwestiynu a deall profiad y plentyn dan sylw. Yn y modd hwn rydym yn ymdrechu i ddeall i ba raddau y mae llais y plentyn yn cael ei gynrychioli ac i ba raddau y mae'n llywio'r cymorth a gynnigir iddo.

Ar hyn o bryd, nid yw AGC yn cynhyrchu un ffigur ledled Cymru ar gyfer nifer y plant yr ymgysylltwyd â nhw ym mhob arolygiad. Fel y disgrifir uchod, mae ein dulliau ymgysylltu yn amrywio ar draws ein gweithgareddau gwahanol, gyda rhai'n cynnwys niferoedd cymharol fawr o blant, e.e. meithrinfeydd, ac eraill yn canolbwyntio ar ystyriaeth fanwl o brofiadau nifer bach o blant a phobl ifanc, e.e. arolygiadau o wasanaethau plant awdurdodau lleol.

2. Pryd y gwnaeth AGC arolygu gwasanaethau Plant Gwynedd ddiwethaf cyn adroddiad 2025 a chanfyddiadau'r arolygiad hwnnw?

Digwyddodd gweithgarwch arolygu yng Ngwynedd fel a ganlyn yn ystod y cyfnod 2018 – 2025.

- Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant – 01-04 Mai 2018 a 14-18 Mai 2018.
- Gweithgareddau â Phwyslais Penodol y Gwasanaethau Plant – 17 Hydref 2019.
- Archwiliad Sicrwydd COVID-19 y Gwasanaethau Plant (hefyd yn cynnwys y Gwasanaethau Oedolion) – 18-22 Ionawr 2021.
- Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant – 27-29 Mawrth 2023.
- Arolygiad ar y cyd ag Estyn o Wasanaethau Plant – 10-13 Tachwedd 2025.

Math o Weithgarwch a'r Dyddiad	Canfyddiadau
<u>Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant</u> Wythnos 1: (x4 diwrnod) 01 Mai 2018 – 04 Mai 2018	Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sy'n gadael gofal, diogelu, a rhianta corfforaethol. Roedd y staff yn fedrus ac yn ymroddedig, gyda gwaith amlasiantaeth cryf a gweithdrefnau amddiffyn plant priodol. Fodd bynnag, canfuwyd problemau o ran cynlluniau diogelwch, adolygiadau o ofal, addasrwydd lleoliadau, argaeledd gofalgwyr maeth, a mynediad at eiriolaeth. Roedd yr argymhellion allweddol yn cynnwys gwella cymorth cynnar, diweddarau asesuadau, cryfhau prosesau

Wythnos 2: (x5 diwrnod) 14 Mai 2018 - 18 Mai 2018	cynllunio gofal ac adolygiadau o ofal, recriwtio mwy o ofalwyr maeth, a gwella gwiriadau diogelu a chymorth eiriolaeth.
<u>Gwasanaethau Plant</u> Gweithgaredd â Phwyslais Penodol 17 Hydref 2019	Nododd yr arolygiad waith amlasiantaeth cryf ac adborth cadarnhaol ar y cyfan gan staff ar y cymorth a'r hyfforddiant. Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau'n cael eu trin mewn modd priodol ac roedd yr asesiadau'n drylwyr. Roedd lleisiau plant yn cael eu clywed, er bod angen cysondeb, yn enwedig o ran grwpiau o frodyr a chwiorydd. Roedd cynlluniau diogelu ar waith gan mwyaf, ond roedd diffyg ymatebion amserol neu asesiadau risg mewn rhai achosion. Roedd y trefniadau goruchwyllo yn effeithiol ond o dan bwysau. Nodwyd oedi wrth ddarparu gwasanaethau a chynllunio gofal. Argymhellodd AGC welliannau o ran cadw cofnodion, cynllunio wrth gefn yn ystod absenoldebau staff, a dilyniant amserol o ran y cymorth y cytunwyd arno.
<u>Gwasanaethau Plant</u> (hefyd yn cynnwys Gwasanaethau Oedolion) Archwiliad Sicrwydd COVID-19 18 Ionawr 2021 – 22 Ionawr 2021	Diben yr archwiliad sicrwydd oedd adolygu pa mor dda yr oedd gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant yn ystod y pandemig Plant: cyswllt wedi'i gynnal, atgyfeiriadau amserol, modelau arloesol. Meysydd i'w Gwella: cofnodi, goruchwyllo, eglurder mewn asesiadau, rhestrau aros, taliadau uniongyrchol, sicrhau bod cynlluniau gofal yn unigol eu gogwydd.
Tachwedd 2022– Adolygiad Cyflym Cenedlaethol o Drefniadau Amddiffyn Plant wedi'i Gomisiynu	Adolygiad cyflym amlasiantaeth o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch amddiffyn plant ledled Cymru, gan gynnwys Gwynedd.
<u>Gwasanaethau Plant</u> Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant	Roedd yr adborth ffurfiol ar ôl y gweithgarwch arolygu yn cynnwys y canlynol. • Arweinyddiaeth gref a gweledigaeth glir yng ngwasanaethau plant Gwynedd. • Gwaith amlasiantaeth effeithiol, er bod rhywfaint o oedi wedi'i nodi wrth rannu gwybodaeth.

27 Mawrth 2023 – 29 Mawrth 2023	• Penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch trefniadau'r gofrestr amddiffyn plant ond gellid gwella'r broses o gofnodi cynnydd a risg yn y dyfodol. • Mae heriau o ran staffio yn effeithio ar ansawdd arferion a chydymffurfiaeth â gweithdrefnau diogelu. • Dealltwriaeth anghyson o drothwyon ymhlith yr asiantaethau partner; argymhellir hyfforddiant ar y cyd. • Caiff lleisiau plant eu hystyried, ond dylid datblygu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cryfach. • Gallai pryderon ynghylch graddfeydd cyflog effeithio ar brosesau recriwtio a chadw staff. • Roedd absenoldeb yr heddlu o gynadleddau adolygu yn cael ei ystyried yn gyfle a gollwyd. • Mae cysondeb ac ymrwymiad y cadeiryddion yn gryfder amlwg.
Cyhoeddi'r Adolygiad Amddiffyn Plant Terfynol 28 Medi 2023	Tynnwyd sylw at Wynedd am Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'i Modelau Risg. Cryfderau: cysondeb, canllawiau clir, offer gweledol. Meysydd i'w gwella: ymgysylltu amlasiantaeth, cyfathrebu, hyfforddiant, capasiti'r gweithlu, llais y plentyn. Argymhellion: mabwysiadu modelau clir, gwella hyfforddiant amlasiantaeth, cryfhau prosesau cyfathrebu, sicrhau bod lleisiau plant yn ganolog.
<u>Gwasanaethau Plant</u> Arolygiad ar y cyd ag Estyn 10 Tachwedd - 13 Tachwedd 2025	Cynhaliodd AGC arolygiad ar y cyd ag Estyn yn adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Addysg awdurdod lleol Gwynedd. Diben yr arolygiad ar y cyd oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Ceisiodd AGC ac Estyn ateb y prif gwestiwn canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: I ba raddau y caiff plant eu hamddiffyn rhag unigolion a allai beri risg iddynt a phan fydd pryderon yn codi am y rhai sy'n gofalu amdanynt neu'n gweithio gyda nhw, boed hynny mewn rôl am dâl neu rôl wirfoddol? <u>Cryfderau:</u> • Ymrwymiad strategol clir i ddiogelu, fel y'i dangosir gan uwch-arweinwyr ac aelodau etholedig, ynghyd â threfniadau llywodraethu cryf sy'n cynnwys goruchwyliaeth annibynnol gan y Bwrdd Adfer. • Mae cyfranogiad plant yn cael ei hyrwyddo'n dda trwy fentrau megis Llais Ni a fforymau ieuenctid ar draws lefelau ysgolion, ardaloedd a siroedd.

- Cydberthnasau amlasiantaeth effeithiol, ynghyd â chydweithrediad cryf ar y cyfan rhwng yr heddlu, y gwasanaethau iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) a phartneriaid yn y trydydd sector, gan gynnwys rhannu gwybodaeth briodol mewn llawer o achosion.
- Enghreifftiau o arferion sy'n cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan ddangos cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol.
- Mae gan yr ysgolion seilweithiau diogelu cryf, ynghyd â pholisïau, arweinwyr dynodedig, a fforymau llesiant disgyblion.
- Mae hyfforddiant diogelu dulliau cymysg ar gael ac yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn cael cymorth rheoli da, goruchwyliaeth strwythuredig ac arweiniad ar gyfer achosion cymhleth.
- Mae'r swyddogaethau craffu yn darparu tryloywder ac atebolrwydd, ac mae'r pwyllgorau a'r paneli'n adolygu'r trefniadau diogelu.

Meysydd i'w gwella:

- **Diffyg cydnabyddiaeth amserol** i unigolion/gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi gwybod am bryderon diogelu (nid yw bob amser o fewn 7 diwrnod gwaith).
- Mae angen cryfhau **ymgysylltiad gweithwyr cymdeithasol â phlant sydd mewn perygl**, yn enwedig lle mae'r pryderon yn ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol.
- **Mae angen cryfhau'r systemau Sicrhau Ansawdd** i alluogi arweinwyr i fonitro data yn fwy effeithiol a gwella arferion rheng flaen.
- **Cydweithio gwan rhwng y gwasanaethau plant a'r prosesau comisiynu**, gan gyfyngu ar gynllunio effeithiol ar gyfer diogelwch a llesiant plant.
- Mae angen **hyfforddiant arbenigol mwy hygyrch**, yn enwedig ar achosion o feithrin perthynas amhriodol a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- **Dealltwriaeth anghyson ar draws adrannau** ynghylch rôl y Tîm Diogelu Addysg a Llesiant.
- **Mae angen gwella'r trafodaethau ynghylch strategaethau amlasiantaeth**, yn enwedig o ran cysondeb ac ansawdd.
- **Mae angen cryfhau cydlyniant ym maes diogelu corfforaethol**, gyda pholisïau a gweithdrefnau cliriach ynghyd â strategaethau ar draws y Cynghorau, gan gynnwys dull cyffredin o ymgorffori llais y plentyn.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi tystiolaeth i ddangos ein hymrwymiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu yn y dyfodol mewn perthynas â'n hadroddiad blynyddol 2025/26.

Yn gywir



Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru

Dear Ms Williams,

We are writing to you as the Chair of the Children, Young People and Education Committee, to introduce ourselves and to explain the work of the Literacy Expert Panel (LEP).

The LEP has been advising on a national approach to literacy that is firmly grounded in scientific evidence, drawing on the diverse experiences and expertise of its members. This multidisciplinary panel comprises leading researchers with many years of experience and deep knowledge of effective literacy teaching. A majority of panellists also have direct experience of teaching literacy with children and young people, ensuring that our discussions are informed by both research and classroom practice.

An early focus of our work has been the development of a *Key Principles* document designed to support teachers and all education stakeholders in Wales to ensure effective literacy teaching and learning.

One of the principles that we have developed is recognition of the fundamental importance of oral language development to the development of reading and writing. Another principle is the importance of systematic phonics teaching: this principle has been augmented with a *Statement of Intent* for further clarity in relation to phonics teaching.

The LEP, which has to date met 14 times over as many months, is highly motivated to contribute to building a scientific, evidence-informed approach to literacy that can be applied consistently across Wales.

We would welcome the opportunity to discuss our work with you further should you wish to do so.

Best regards,

The Literacy Expert Panel:

Angella Cooze
Cameron Downing
Usha Goswami
Carl Hughes
Manon Jones
James Mannion
Sharon McMurray
Dominic Wyse



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

05 Mawrth 2026

Annwyl Buffy,

Ar y cyd â'r Ysgrifennydd Cabinet, ysgrifennais at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn ei gyfarfod ar 4 Chwefror. Roedd y llythyr hwnnw yn cynnwys pwynt gweithredu i ddarparu 'Rhagor o wybodaeth ynghylch asesiadau o fforddiadwyedd cynyddu gwariant benthyciadau myfyrwyr ar gyfradd uwch na Llywodraeth y DU a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar becynnau cymorth yn y dyfodol', a chynigiais roi sesiwn frifio technegol i'r Pwyllgor.

Gan fod amser y Pwyllgor yn gyfyngedig, cytunais i ddarparu nodyn ysgrifenedig. Mae'r nodyn sydd wedi ei atodi yn rhoi eglurhad o'r ddau brif fath o bwysau cyllidol sy'n effeithio ar system benthyciadau myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, byddwn yn hapus i'w darparu.

Yn gywir,

Vikki Howells AS/MS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Briff Llywodraeth Cymru: Rheoli Cyllideb Benthyciadau Myfyrwyr – Pwysau AME ac RAB

Y cefndir

Cyfarfu'r pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 4 Chwefror a chafwyd llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch. Yn y llythyr o dan y pwynt gweithredu 'Rhagor o wybodaeth ynghylch asesiadau o fforddiadwyedd cynyddu gwariant benthyciadau myfyrwyr ar gyfradd uwch na Llywodraeth y DU a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar becynnau cymorth yn y dyfodol', cynigiodd y Gweinidog roi sesiwn frifio technegol i'r Pwyllgor.

Gan fod amser y Pwyllgor yn gyfyngedig, cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ysgrifenedig.

Mae'r briff hwn yn rhoi eglurhad o'r ddau brif fath o bwysau cyllidol sy'n effeithio ar system benthyciadau myfyrwyr Llywodraeth Cymru:

1. **Y rheolydd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar gyfanswm gwariant ar fenthyciadau myfyrwyr**, gan gynnwys benthyciadau cynhaliaeth a benthyciadau ffioedd; a
2. **Y tâl Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau (RAB)**, sy'n adlewyrchu cost hirdymor peidio ag ad-dalu benthyciadau ac y mae terfyn gwariant wedi'i glustnodi ar wahân yn berthnasol iddo.

Trosolwg o Reolyddion Cyllideb Benthyciadau Myfyrwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei system cyllid myfyrwyr o fewn dau reolydd gwahanol sy'n perthyn i Drysorlys EF:

Rheolydd AME (Terfyn ar Wariant Benthyciadau)

- Mae AME yn ariannu cost arian parod benthyciadau newydd i fyfyrwyr.
- Mae Trysorlys EF yn darparu sicrwydd AME ar y sail bod trefniadau cymorth i fyfyrwyr Cymru yn parhau i fod **yn gymaradwy yn fras** â'r rhai yn Lloegr.
- Os bydd gwariant ar fenthyciadau Cymru yn tyfu'n sylweddol gyflymach na'r gwariant cymharol yn Lloegr, gall Trysorlys EF ddod i'r casgliad nad yw'r system yn gymaradwy mwyach, gan osod cyfyngiadau ar sicrwydd AME yn y dyfodol ac yn ei gwneud yn ofynnol ariannu'r gwahaniaeth o gyllideb RDEL graidd Llywodraeth Cymru.

Rheolydd RAB (Amhariad/Terfyn Peidio ag Ad-dalu)

- Mae'r tâl RAB yn adlewyrchu'r gyfran o fenthyciadau newydd na ddisgwyllir iddynt gael eu had-dalu.

- Mae Cymru'n cael sicrwydd ar gyfer costau RAB nad ydynt yn arian parod gan Drysorlys EF, wedi'i gyfyngu i gyfran Barnett o'r tâl RAB a ragwelir ar gyfer Lloegr.
- Rhaid i unrhyw gostau RAB uwchlaw'r dyraniad hwnnw gael eu hariannu o **gyllideb RDEL graidd** Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddau reolydd hyn yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Mae torri'r naill neu'r llall ohonynt yn arwain at bwysau cyllidol uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru.

Pwysau AME

Twf mewn Gwariant ar Fenthyciadau

Mae gwariant ar fenthyciadau wedi cynyddu'n gyson yng Nghymru oherwydd:

- Ers gweithredu argymhellion Diamond o 2018-19, mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth wedi bod yn cael ei uwchraddio yn unol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol hyd at 2024/25, ac yn unol â chwyddiant y CPI ers 2025-26;
- Rhewi symiau a throthwyon grantiau cynhaliaeth, gan symud cyfran fwy o'r cymorth i fenthyciadau;
- Cynnydd mewn capiau ar ffioedd dysgu i fod yn gyfartal â ffioedd Lloegr;
- Model cynhaliaeth cynyddol sy'n cadw lefelau uwch o gymorth fesul myfyriwr o gymharu â Lloegr.

Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod benthyciadau cynhaliaeth yng Nghymru wedi cynyddu'n gyflymach na benthyciadau cynhaliaeth yn Lloegr, lle nad yw'r benthyciadau hyn wedi cadw i fyny â chwyddiant. O ganlyniad, mae Cymru bellach yn gweithredu'n agos at y terfyn uchaf AME ymhlyg a bennir gan ei sefyllfa o gymharu â Lloegr.

Gwariant ar Grantiau

Fel y crybwyllir yn yr adran ar Dwf mewn Gwariant ar Fenthyciadau, mae symiau grantiau wedi'u pennu o 2018-19 i 2025-26, gyda chyfanswm y cynnydd mewn chwyddiant yn cael ei amsugno drwy gynyddu symiau benthyciadau yn unol â hynny.

- Bob blwyddyn, o dan y polisi cymorth presennol, mae llai o fyfyrwyr yn gymwys ar gyfer y lefelau grant uwch gan fod trothwyon incwm yn parhau i fod wedi'u rhewi.
- Ar gyfer 2026/27 rydym yn cymhwyso codiad chwyddiant o 2% yn seiliedig ar CPI i fenthyciadau cynhaliaeth ac i gymorth grantiau.
- Mae hyn yn helpu i reoli'r cynnydd mewn symiau benthyciadau, gan fod y cynnydd cyfan wedi'i gymhwyso i fenthyciadau a grantiau ill ddau ar gyfer 2026/27.

Pwysau RAB

Rhagolwg o'r Sefyllfa RAB

Mae modelu ar sail y model diweddaraf ar gyfer ad-daliadau ledled y DU yn dangos y gall tâl RAB Cymru ar gyfer 2025-26 godi i oddeutu £367m, sy'n fwy na'r gyllideb RAB sydd ar gael (a bennir gan gyfran Barnett o'r tâl RAB a ragwelir ar gyfer Lloegr).

Mae Trysorlys EF eisoes wedi awgrymu y gall fod yn ofynnol i Gymru dalu oddeutu £7.7m o hyn o'i chyllideb RDEL ei hun, yn amodol ar yr alldro terfynol.

Yr hyn sy'n achosi costau RAB i gynyddu

Mae torri'r rheolyddion cyllideb a ragwelir yn deillio o nifer o ffactorau:

- **Y model diweddaraf ar gyfer enillion ac ad-daliadau graddedigion:** Achos pwysicaf y cynnydd hwn yw symud i'r model gwell ar gyfer ad-daliadau graddedigion a rennir ledled y DU. Mae'r model newydd yn lleihau'n sylweddol ragamcanion o enillion graddedigion ac felly ad-daliadau.
- **Gwahaniaeth o ran polisi â Lloegr:** Mae Cymru yn cadw polisi ad-dalu Cynllun 2, tra bo Lloegr wedi symud i Gynllun 5 ar gyfer carfannau newydd (o fis Medi 2023 ymlaen). Mae gan Gynllun 5 drothwy incwm is ar gyfer dechrau gwneud ad-daliadau (sef £25,000 ar gyfer 2025-26, o gymharu â £28,470 ar gyfer Cynllun 2), yn ogystal â thymor ad-dalu hirach (40 mlynedd, o gymharu â 30 mlynedd ar gyfer Cynllun 2).
- **Twf yng ngwariant ar fenthyciadau:** Mae gwariant uwch ar fenthyciadau yn arwain yn uniongyrchol at gostau uwch nag a ddisgwyliar ar gyfer dileu benthyciadau.

Y Model Diweddaraf ar gyfer Ad-daliadau ac Effeithiau ar Fenthycwyr

Y Model Newydd ar gyfer Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr

Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU wedi mabwysiadu model cyffredin ar gyfer enillion ac ad-daliadau graddedigion ledled y DU. Ymhlith y nodweddion allweddol y mae:

- Rhagdybiaethau wedi'u diweddarau ynghylch twf mewn enillion gwirioneddol;
- Dosbarthiadau incwm graddedigion wedi'u hadnewyddu;
- Y data diweddaraf ar gyflogaeth ac ymddygiadau o ran ad-dalu.

Rhoddodd yr Adran Addysg y model diweddaraf ar waith am y tro cyntaf yn 2020, a dechreuodd Llywodraeth Cymru drosglwyddo i agweddau ar y model newydd o 2021 ymlaen, gan fod y model wedi cael ei ddatblygu i alluogi Llywodraeth Cymru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i'w ddefnyddio. Roedd model llawn o'r dechrau i'r diwedd ar gael i'w brofi gan Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2025. Yn dilyn

profion llawn a sicrhau ansawdd, cymeradwywyd y model newydd llawn i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifon Llywodraeth Cymru a ffurflenni AME 25-26. Mae'r amseriad hwn yn unol â Gweinyddiaethau Datganoledig eraill y DU.

Mae symud i'r model newydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y tâl RAB, o ganlyniad i ddefnyddio ffynhonnell ddata newydd fel sail ar gyfer twf enillion a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar lefelau ad-dalu. Mae effaith debyg wedi dod i'r amlwg yng Ngweinyddiaethau Datganoledig eraill y DU.

Effaith Gyfunol Cyfyngiadau AME ac RAB

Mae rhyngweithio rhwng y ddau reolydd bellach yn creu pwysau dwbl:

- **Cyfyngiad AME:** Mae Cymru'n agos at derfyn y sicrwydd AME y gellir ei gyfiawnhau o dan yr egwyddor cymaradwyedd.
- **Cyfyngiad RAB:** Mae'r modelu diweddaraf yn cynyddu'n sylweddol y gost amcangyfrifedig o beidio ag ad-dalu, gan fynd yn uwch na'r gyllideb RAB wedi'i glustnodi.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu sefyllfa fwy heriol o ran fforddiadwyedd nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyd yn oed cynnydd pellach bach mewn gwariant ar fenthyciadau neu wahaniaeth fach oddi wrth bolisi ad-dalu Lloegr yn debygol o fod yn anghynaliadwy o dan reolyddion Trysorlys EF.

Risgiau ac Ystyriaethau Allweddol ar gyfer Aelodau'r Senedd

- **Risg gyllidol:** Gallai gorwariant yn y dyfodol roi pwysau cylchol ar gyllideb RDEL.
- **Risg weithredol:** Mae rheolau ad-dalu sy'n wahanol i'w gilydd yn peri heriau i CThEF a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr o ran dichonoldeb a chostau.
- **Cydluniant polisi:** Rhaid i unrhyw addasiadau i strwythurau cynhaliaeth neu ad-dalu ystyried cyfranogiad, tegwch a chymaradwyedd.
- **Amseru:** Mae diweddariadau sylweddol i fodelau'n cyd-daro â chyfnodau cyfyngedig o ran llunio polisiâu cyn yr etholiad.

Y Camau Nesaf

Mae swyddogion yn parhau i asesu opsiynau ar gyfer gwella fforddiadwyedd wrth gynnal tegwch a chydlyniant polisi. Bydd mynd i'r afael â'r materion a nodir yn y papur hwn yn rhan greiddiol o ymateb Llywodraeth Cymru i **Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: pum her a galwad am gyflwyniadau**¹.

Enw cyswllt

- Am ragor o wybodaeth, gall swyddogion yn yr Is-adran Strategaeth a Chyllid ddarparu dadansoddiad technegol neu friffio ychwanegol yn ôl yr angen.

¹ [Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: pum her a galwad am gyflwyniadau | LLYW.CYMRU](#)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon